

Gwers 31

Y Ddau Dŷ



Cyfes Stori Duw

Luc 6:46–49

Nod:

Gweld mai Iesu yw'r sylfaen gorau ar gyfer bywyd.

Adnodau:

Luc 6:46–49

Gweithgaredd:

I gychwyn y wers heddiw chwaraewch gêm o gleddyf yn y wain. Bydd pawb angen eu Beibl eu hunain ar gyfer y gêm. I ddechrau, gofynnwch i bobl o'r bobl ifanc gau'r Beibl a'i roi o dan eu cesail. Wrth i chi ddweud 'ar eich marc' dylent godi'r Beibl uwch eu pen. Enwch lyfr, pennod ac adnod, yna gwaeddwch 'ewch', a dylai'r bobl ifanc geisio bod y cyntaf i ddod o hyd i'r adnod a'i darllen allan yn uchel.

Dyma rai enghreifftiau o adnodau y gellid eu defnyddio:

- Mathew 13:34
- Salm 18:46
- Datguddiad 22:21
- Mathew 6:21
- Ioan 3:13
- Luc 6:43 (Defnyddiwch hwn olaf a byddant yn agos i'r darlleniad ar gyfer y wers.)

Cefndir:

Dyma un o lawer o ddamhegion a ddysgodd Iesu i'r tyrfaoedd oedd yn ei ddilyn. Stori ydi dameg, stori â gwrs i ni ddysgu oddi wrthi.

Darllen yr adnodau:

Dewiswch un person i ddarllen yr hanes yn Luc 6:46–49, pawb arall i ddilyn yn eu Beiblau.

Dywedwch – Mae Iesu yn cychwyn y ddameg hon gyda rhybudd i'r gwrandawyr. Roedd llawer o bobl yn ei ddilyn o amgylch y wlad, i wrando ar ei bregethu a chael eu hiacháu ganddo. Er eu bod yn ei ddilyn, nid oedd rhai ohonynt yn ei gymryd o ddifrif nac yn gweithredu ar yr hyn yr oedd yn ei ddweud. Roedd eraill, ar y llaw arall, yn credu yn ei eiriau ac roedd eu bywydau yn cael eu newid yn llwyr. Mae Iesu'n defnyddio'r ddameg hon i ddangos beth yw canlyniad gwrandao ar ei eiriau, a beth hefyd yw canlyniad eu hanwybyddu.

Trafodaeth:

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydynt erioed wedi gweld sylfaen eu tŷ? Ydyn nhw'n gwybod pa ddeunyddiau sydd yn y sylfaen? Ydyn nhw'n meddwl y byddai'r tŷ yn dal i sefyll heddiw heb y sylfaen? Mae gan goed sylfaen hefyd, tybed ydyn nhw'n gwybod beth ydym yn galw'r rheini? Beth fyddai'n digwydd i'r goeden heb ei gwreiddiau?

- Sut wnaeth y dyn cyntaf adeiladu ei dŷ? (ad 48, cloddio'n ddwfn, a'i adeiladu ar graig.)

- Beth oedd effaith y llifogydd a'r afon ar y tŷ? (ad 48, *dim* – roedd yn sefyll yn gadarn.)
- Sut wnaeth yr ail ddyn adeiladu ei dŷ? (ad 49, *ar bridd, heb sylfaen.*)
- Beth oedd effaith yr afon ar yr ail dŷ? (ad 49, *chwalodd y tŷ a chwympto i lawr.*)

Gallwch ddangos hyn yn y dosbarth drwy greu dau dŷ syml allan o bedwar darn o gerdyn a'u glynu wrth ei gilydd gyda thâp selo i wneud sgwâr (nid oes angen to arnynt). Rhowch un ar y bwrdd, gyda blociau pren neu lyfrau o'i amgylch fel sylfaen a'r llall ar bentwr o dywod, halen neu bridd sych ar blât neu hambwrdd i osgoi llanast. Gofynnwch i un o'r disgyblion ysgwyd y bwrdd i weld pa dŷ fydd yn dal i sefyll ar ddiwedd y 'daeargryn'.

Roedd y dyn cyntaf wedi cymryd amser i 'gloddio'n ddwfn' i greu ei sylfaen. Gofynnwch i'r disgyblion sut allan nhw gloddio'n ddwfn i wneud sylfaen i'w bywydau? Canmolwch atebion megis; darllen y Beibl, gweddio, credu yn Iesu, mynd i'r capel.

Gweithgaredd:

Labelwch ddwy o'r waliau gyferbyn â'i gilydd yn yr ystafell, un yn 'tŷ1' a'r llall yn 'tŷ2'. Gofynnwch i'r bobl ifanc godi ar eu traed a dewis un 'tŷ' i fynd iddo. Gwaeddwch "storm yn tŷ1" – pwy bynnag sydd yn y tŷ hwnnw, mae'n rhaid iddynt redeg i tŷ2, ac i'r gwrthwyneb, os ydych yn gweiddi "storm yn tŷ2" rhaid iddynt adael tŷ2 a rhedeg i tŷ1. Mae'r person olaf i gyrraedd yr ochr arall allan. Gallwch geisio'u dal allan, drwy weiddi

"storm yn tŷ2" pan mae pawb yn tŷ1, bydd y rhai sy'n cychwyn symud i'r pen arall allan.

Amser Addoli:

Sylfaen yw'r peth pwysicaf yn ein bywyd. Yr unig sylfaen gadarn ar gyfer ein bywyd fel Cristnogion yw Iesu Grist. Gofynnwch sut allwn wneud yn siŵr (er yn rhoi lle priodol i bethau pwysig eraill ee teulu, gwaith ysgol ayb) mai Iesu Grist ydi prif sylfaen ein bywydau?

Gweddïwch y bydd y bobl ifanc yn gosod eu sylfaen ar Iesu Grist, drwy gydol eu bywydau. Amen